**Polisi Iechyd a Diogelwch Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru**

Mae Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru wedi ymrwymo i sicrhau iechyd, diogelwch a lles staff, aelodau, mynychwyr gweithdai, arholiadau a digwyddiadau, gwirfoddolwyr, myfyrwyr ac ymwelwyr yn ei swyddfa, yn unol â holl adrannau cymwys y Ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith a gofynion statudol perthnasol eraill.

**Camau gweithredu**

Yn benodol, fe wnaiff y Gymdeithas gymryd camau o fewn ei gallu i gwrdd â'i chyfrifoldebau i weithredu systemau iechyd a diogelwch effeithiol a chadarn ar bob achlysur:

(i) I sicrhau bod y mannau gwaith mewn cyflwr diogel a chyda'r risg lleiaf posibl i iechyd a diogelwch unigolion ac eiddo.
(ii) I ddarparu a chynnal offer a systemau gwaith sydd yn ddiogel gyda'r risg lleiaf posibl i iechyd a diogelwch unigolion ac eiddo.
(iii) I sicrhau bod nwyddau, offer a sylweddau yn cael eu defnyddio, eu storio a'u symud mewn modd diogel a heb achosi unrhyw risg i iechyd.
(iv) I ddarparu'r wybodaeth, cyfarwyddyd, hyfforddiant a goruchwyliaeth angenrheidiol i sicrhau Iechyd a Diogelwch ei staff ac unrhyw unigolion eraill yn ôl y galw.
(v) I ddarparu a chynnal amgylchedd gwaith diogel ac iach i atal damweiniau a salwch sy'n gysylltiedig â'r gwaith.
(vi) Mewn cydweithrediad â'r landlord, i gynnal gweithle diogel gyda'r risg lleiaf posibl i iechyd a darparu a chynnal mynedfeydd/ allanfeydd diogel a heb unrhyw risg.
(vii) I sicrhau bod pob aelod o staff yn gymwys i gyflawni eu dyletswyddau, a darparu hyfforddiant digonol ar eu cyfer.
(viii) I sicrhau cyfleusterau digonol a threfniadau ar gyfer lles aelodau o staff ac eraill yn y gwaith.
(ix) I ddarparu gwasanaeth cymorth cyntaf mor rhesymol ac mor ymarferol ag sy'n bosibl i anafiadau yn y gwaith. Cofnodir pob damwain a salwch sy'n gysylltiedig â'r gwaith yn y Llyfr Damweiniau.
(x) Mewn cydweithrediad â'r landlord, i sicrhau bod trefn effeithiol i wacáu'r swyddfa mewn achos o argyfwng.
(xi) I sicrhau fod unrhyw adnodd/adeilad allanol sy'n cael ei ddefnyddio efo asesiad risg, tystysgrif tân ayyb priodol ar gyfer gweithgareddau'r Gymdeithas.
(xii) Annog y staff i gynnal safonau uchel o iechyd a diogelwch bob amser ac ymddwyn mewn modd cyfrifol a gofalus i atal damweiniau a salwch iddynt eu hunain ac eraill a allai gael eu heffeithio gan weithredoedd ac esgeulustod yn y gwaith.

**Llesiant a Straen**

Mae Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru yn cydnabod y gall straen a phroblemau iechyd meddwl effeithio ar iechyd, lles a pherfformiad staff. Bydd y Gymdeithas yn cymryd

camau rhesymol i nodi ac i leihau ffynonellau straen sy'n gysylltiedig â'r gwaith, ac i hyrwyddo llesiant meddyliol cadarnhaol. Anogir staff i godi unrhyw bryderon ynghylch eu llwyth gwaith, eu llesiant neu unrhyw faterion eraill a allai effeithio ar eu hiechyd, fel y gellir ystyried cymorth a threfniadau priodol.

**Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith**

Mae Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru yn cydnabod mai cyfrifoldeb Bwrdd y Cyfarwyddwyr yw Iechyd a Diogelwch ac mai Cadeirydd y Bwrdd sydd â'r cyfrifoldeb terfynol dros reoli'r holl agweddau ar Iechyd a Diogelwch y cyfeirir atynt yn y Polisi hwn.

Mae'r cyfrifoldebau gweithredol o ddydd-i-ddydd ynghylch holl faterion Iechyd a Diogelwch y Gymdeithas yn un o ddyletswyddau'r Prif Swyddog. O'r herwydd, dylid hysbysu'r Prif Swyddog o unrhyw faterion Iechyd a Diogelwch cyn gynted ag y bo modd.

**Dyddiad:** Mai 2026

**Dyddiad adolygu:** Mai 2027